ystyr “Penderfyniad y Comisiwn 2002/757/EC” (“*Commission Decision 2002/757/EC*”) yw Penderfyniad y Comisiwn 2002/757/EC ynghylch mesurau ffytoiechydol brys dros dro i atal *Phytophthora ramorum* Werres, De Cock & Man in ‘t Veld sp. nov.(**14**) rhag cael ei gyflwyno i’r Gymuned a lledaenu ynddi;

ystyr “Penderfyniad y Comisiwn 2004/200/EC” (“*Commission Decision 2004/200/EC*”) yw Penderfyniad y Comisiwn 2004/200/EC ynghylch mesurau i atal Firws amryliw pepino(**15**) rhag cael ei gyflwyno i’r Gymuned a lledaenu ynddi;

ystyr “Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2011/787/EU” (“*Commission Implementing Decision 2011/787/EU*”) yw Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2011/787/EU yn awdurdodi’r Aelod-wladwriaethau dros dro i gymryd mesurau brys rhag lledaenu *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al. o ran yr Aifft(**16**);

ystyr “Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2012/138/EU” (“*Commission Implementing Decision 2012/138/EU*”) yw Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2012/138/EU o ran mesurau brys i atal *Anoplophora chinensis* (Forster)(**17**) rhag cael ei gyflwyno i’r Undeb a lledaenu ynddo;

ystyr “Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2012/270/EU” (“*Commission Implementing Decision 2012/270/EU*”) yw Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2012/270/EU o ran mesurau brys i atal *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix papa* sp.n., *Epitrix subcrinita* (Lec.) ac *Epitrix tuberis* (Gentner)(**18**) rhag cael eu cyflwyno i’r Undeb a lledaenu ynddo;

ystyr “Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2012/535/EU” (“*Commission Implementing Decision 2012/535/EU*”) yw Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2012/535/EU ynghylch mesurau brys i atal *Bursaphelenchus xylophilus* (Steiner et Buhrer) Nickle et al. (llyngyr coed pin)(**19**) rhag cael ei ledaenu yn yr Undeb;

ystyr “Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2012/697/EU” (“*Commission Implementing Decision 2012/697/EU*”) yw Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2012/697/EU o ran mesurau i atal y genws *Pomacea* (Perry)(**20**) rhag cael ei gyflwyno i’r Undeb a lledaenu ynddo;

ystyr “Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2015/789” (“*Commission Implementing Decision (EU) 2015/789*”) yw Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2015/789 o ran mesurau i atal *Xylella fastidiosa* (Wells et al.)(**21**) rhag cael ei gyflwyno i’r Undeb a lledaenu ynddo;

ystyr “Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2015/893” (“*Commission Implementing Decision (EU) 2015/893*”) yw Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2015/893 o ran mesurau i atal *Anoplophora glabripennis* (Motschulsky)(**22**) rhag cael ei gyflwyno i’r Undeb a lledaenu ynddo;

ystyr “Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2016/715” (“*Commission Implementing Decision (EU) 2016/715*”) yw Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2016/715 yn nodi mesurau o ran ffrwythau penodol sy’n tarddu o drydydd gwledydd penodol i atal yr organeb

(**14**) OJ Rhif L 252, 20.9.2002, t. 37, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2016/1967 (OJ Rhif L 303, 10.11.2016, t. 21).
(**15**) OJ Rhif L 64, 2.3.2004, t. 43.
(**16**) OJ Rhif L 319, 2.12.2011, t. 112.
(**17**) OJ Rhif L 64, 3.3.2012, t. 38, fel y’i diwygiwyd gan Benderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2014/356/EU (OJ Rhif L 175, 14.6.2014, t. 38).
(**18**) OJ Rhif L 132, 23.5.2012, t. 18, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2018/5 (OJ Rhif L 2, 5.1.2018, t. 11).
(**19**) OJ Rhif L 266, 2.10.2012, t. 42, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2018/618 (OJ Rhif L 102, 23.4.2018, t. 17).
(**20**) OJ Rhif L 311, 10.11.2012, t. 14.
(**21**) OJ Rhif L 125, 21.5.2015, t. 36, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2018/1511 (OJ Rhif L 255, 11.10.2018, t. 16).
(**22**) OJ Rhif L 146, 11.6.2015, t. 16.

niweidiol *Phyllosticta citricarpa* (McAlpine) Van der Aa.(**23**) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu ynddo;

ystyr "Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/198" ("*Commission Implementing Decision (EU) 2017/198*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/198 o ran mesurau i atal *Pseudomonas syringae* pv. *actinidiae* Takikawa, Serizawa, Ichikawa, Tsuyuma & Goto(**24**) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu ynddo;

ystyr "Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/638" ("*Commission Implementing Decision (EU) 2018/638*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/638 yn sefydlu mesurau brys i atal yr organedd niweidiol *Spodoptera frugiperda* (Smith)(**25**) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu ynddo;

ystyr "Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/1503" ("*Commission Implementing Decision (EU) 2018/1503*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/1503 yn sefydlu mesurau i atal *Aromia bungii* (Faldermann)(**26**) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu ynddo;

ystyr "Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1615" ("*Commission Implementing Decision (EU) 2019/1615*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1615 yn sefydlu mesurau brys i atal Firws ffrwythau crychlyd coch tomatos (ToBRFV)(**27**) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu ynddo;

ystyr "Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1739" ("*Commission Implementing Decision (EU) 2019/1739*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1739 yn sefydlu mesurau brys i atal Firws Rhoséd Rhosynnau(**28**) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu ynddo;

ystyr "Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2032" ("*Commission Implementing Decision (EU) 2019/2032*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2032 yn sefydlu mesurau i atal *Fusarium circinatum* Nirenberg & O'Donnell (*Gibberella circinata* gynt)(**29**) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu ynddo.

(2) Mae cyfeiriadau at y Rheoliad Amodau Ffytoiechydol ac at offerynnau'r Undeb Ewropeaidd y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) i'w dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

### Mesurau a fabwysiedir yn unol ag Erthygl 30(1) o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE

**4.** Mae unrhyw gyfeiriad yn Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE at bla sy'n destun y mesurau a fabwysiedir yn unol ag Erthygl 30(1) yn cynnwys y plâu planhigion a ganlyn—

(a) *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix* papa. (Orlova-Bienkowskaja), *Epitrix* subcrinita (Lec.) neu *Epitrix tuberis* (Gentner);

(b) *Pseudomonas syringae* pv. *actinidiae* Takikawa, Serizawa, Ichikawa, Tsuyuma & Goto;

(c) Firws rhoséd rhosynnau;

(d) Firws ffrwythau crychlyd coch tomatos.

(**23**) OJ Rhif L 125, 13.5.2016, t. 16, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/449 (OJ Rhif L 77, 20.3.2019, t. 76).
(**24**) OJ Rhif L 31, 4.2.2017, t. 29.
(**25**) OJ Rhif L 105, 25.4.2018, t. 31, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1598 (OJ Rhif L 248, 27.9.2019, t. 86).
(**26**) OJ Rhif L 254, 10.10.2018, t. 9.
(**27**) OJ Rhif L 250, 30.9.2019, t. 91.
(**28**) OJ Rhif L 265, 18.10.2019, t. 12.
(**29**) OJ Rhif L 313, 4.12.2019, t. 94.

ATODLEN 1 — Rheoliad 18

Mesurau gwladol dros dro

**Dehongli**

**1.** Yn yr Atodlen hon, ystyr "cyflwyno" yw cyflwyno i Gymru o drydedd wlad neu ran arall o diriogaeth yr Undeb.

# RHAN 1

## Planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o drydydd gwledydd

**Mesurau dros dro sy'n gymwys i gyflwyno planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o drydydd gwledydd**

**2.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson gyflwyno unrhyw beiriannau neu gerbydau a ddefnyddiwyd ac a weithredwyd at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth ac a allforiwyd o'r Swistir oni bai bod y peiriannau neu'r cerbydau—

(a) wedi eu hallforio o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad amddiffyn planhigion gwladol yn unol ag SRFFf 4 fel ardal sy'n rhydd rhag *Ceratocystis platani* (J.M. Walter) Engelbr. & T.C. Harr., neu

(b) yn achos unrhyw beiriannau neu gerbydau a allforiwyd o ardal sydd wedi ei heigio â *Ceratocystis platani* (J.M. Walter) Engelbr. & T.C. Harr., eu bod wedi eu glanhau a'u bod yn rhydd rhag gweddillion pridd a phlanhigion cyn eu symud allan o'r ardal.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "SRFFf 4" yw'r Safon Ryngwladol ar Fesurau Ffytoiechydol Rhif 4 dyddiedig Tachwedd 1995 ynghylch y gofynion ar gyfer sefydlu ardaloedd di-bla, a baratowyd gan Ysgrifenyddiaeth yr IPPC a sefydlwyd gan Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig(**42**).

# RHAN 2

## Planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o ran arall o diriogaeth yr Undeb

**Mesurau dros dro sy'n gymwys i gyflwyno planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o ran arall o diriogaeth yr Undeb**

**3.** Yn y Rhan hon—

ystyr "datganiad swyddogol" ("*official statement*") yw datganiad a ddyroddir gan gynrychiolydd awdurdodedig i'r awdurdod cymwys yn yr Aelod-wladwriaeth wreiddiol neu o dan ei oruchwyliaeth;

ystyr "Sbaen" ("*Spain*") yw'r rhan honno o Sbaen sydd wedi ei chynnwys o fewn tiriogaeth yr Undeb at ddibenion Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE, heblaw Ynysoedd Baleares;

ystyr "symud" ("*move*") yw symud yng Nghymru.

(**42**) Ar gael oddi wrth Ysgrifenyddiaeth yr IPPC, AGPP-FAO, Viale Delle Terme di Caracalla, 00153, Rhufain, Yr Eidal ac yn https://www.ippc.int/int.

**4.** Ni chaiff unrhyw berson gyflwyno na symud unrhyw blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill a ddisgrifir yng ngholofn 2 o Dabl 1 oni cheir datganiad swyddogol gyda hwy yn cadarnhau'r materion a nodir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 3 o'r Tabl hwnnw.

**Tabl 1**

| *(1)* | *(2)* *Disgrifiad o'r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu'r gwrthrychau eraill* | *(3)* *Manylion y datganiad swyddogol* |
|---|---|---|
| 1. | Cloron *Solanum tuberosum* L., gan gynnwys y rhai a fwriedir i'w plannu sy'n tarddu o Sbaen ac eithrio pan fo'r cloron hynny'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/270/EU | Rhaid i'r datganiad swyddogol gadarnhau bod y cloron wedi eu golchi fel nad oes mwy na 0.1% o bridd ar ôl |
| 2. | Cloron *Solanum tuberosum* L., yn tarddu o Wlad Pwyl | Rhaid i'r datganiad swyddogol gadarnhau y cafwyd bod y cloron yn rhydd rhag *Clavibacter michiganensis* ssp. *Sepedonicus* (Spieckermann a Kotthoff) David et al. mewn profion mewn labordy |

ATODLEN 2

Rheoliad 23

# RHAN 1

## Dehongli cyffredinol

**1.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "Cyfarwyddeb 93/85/EEC" ("*Directive 93/85/EEC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 93/85/EEC ynghylch rheoli pydredd cylch tatws(**43**);

ystyr "Cyfarwyddeb 98/57/EC" ("*Directive 98/57/EC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 98/57/EC ynghylch rheoli *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi *et al*.(**44**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2007/33/EC" ("*Directive 2007/33/EC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2007/33/EC ynghylch rheoli Llyngyr tatws(**45**);

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw le, gan gynnwys unrhyw dir, adeilad, cerbyd, llestr, awyren, hofrenfad, cynhwysydd llwythi, wagen reilffordd, trelar neu adeilad neu adeiledd symudol;

(**43**) OJ Rhif L 259, 18.10.1993, t. 1, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/56/EC (OJ Rhif L 182, 4.7.2006, t. 1). Mae'n cael ei ddiddymu o 1 Ionawr 2022 ymlaen (gweler Erthygl 113(2) o Reoliad (EU) 2016/2031 (OJ Rhif L 317, 23.11.2016, t. 4).
(**44**) OJ Rhif L 235, 21.8.1998, t. 1, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/63/EC (OJ Rhif L 206, 27.7.2006, t. 36). Mae'n cael ei ddiddymu o 1 Ionawr 2022 ymlaen (gweler Erthygl 113(2) o Reoliad (EU) 2016/2031).
(**45**) OJ Rhif L 156, 16.6.2007, t. 12. Mae'n cael ei ddiddymu o 1 Ionawr 2022 ymlaen (gweler Erthygl 113(2) o Reoliad (EU) 2016/2031).

| *Y ddarpariaeth yn neddfwriaeth yr UE* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Erthygl 22(4) | Yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am lwyth perthnasol sy'n cael ei gludo drwy diriogaeth yr Undeb gymryd mesurau penodol ynglŷn â chludo'r llwyth. |

## ATODLEN 4

Rheoliad 38(1)(g)

Troseddau ynglŷn â phenderfyniadau brys gan yr UE

| *Penderfyniad yr UE* | *Y ddarpariaeth ym mhenderfyniad yr UE* |
|---|---|
| Penderfyniad y Comisiwn 98/109/EC | Erthygl 1 (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb flodau wedi eu torri o Orchidaceae sy'n tarddu o Wlad Thai) |
| Penderfyniad y Comisiwn 2002/757/EC | Erthygl 3(1) a (2) (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau a phren sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ac sy'n tarddu o UDA) |
| | Erthygl 3(4) (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion penodol, heblaw hadau, a fwriedir i'w plannu ac sy'n tarddu o drydydd gwledydd heblaw UDA) |
| | Erthygl 4 (gwahardd cyflwyno i diriogaeth yr Undeb risgl sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau ac sy'n tarddu o UDA) |
| | Erthygl 5 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion penodol a fwriedir i'w plannu ac sy'n tarddu o'r Undeb) |
| Penderfyniad y Comisiwn 2004/200/EC | Erthygl 1 (gwahardd symud o fewn tiriogaeth yr Undeb hadau Solanum lycopersicum L. wedi eu halogi gan Firws amryliw pepino) i'r graddau y mae'n ymwneud â symud hadau Solanum lycopersicum L. a gynhyrchwyd cyn 14 Rhagfyr 2019 ac sy'n cael eu symud o fewn tiriogaeth yr Undeb ar unrhyw adeg cyn 14 Rhagfyr 2020 |
| | Erthygl 3(1) (gofynion mewn perthynas â symud hadau Solanum lycopersicum L. sy'n tarddu o'r Undeb) i'r graddau y mae'n ymwneud â symud hadau Solanum lycopersicum L. a gynhyrchwyd cyn 14 Rhagfyr 2019 ac sy'n cael eu symud o fewn tiriogaeth yr Undeb unrhyw bryd cyn 14 Rhagfyr 2020 |
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2011/787/EU | Erthygl 1(1) (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb gloron Solanum tuberosum L. sy'n tarddu o'r Aifft) |
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/138/EU | Erthygl 2 (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o drydydd gwledydd, heblaw Tsieina) |

| *Penderfyniad yr UE* | *Y ddarpariaeth ym mhenderfyniad yr UE* |
|---|---|
| | Erthygl 3(1) a (2) (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o Tsieina) |
| | Erthygl 4 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o ardaloedd a ddarnodwyd, neu a gyflwynwyd iddynt, neu blanhigion penodedig a gyflwynwyd i diriogaeth yr Undeb yn unol ag Erthygl 2 neu 3) |
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/270/EU | Erthygl 1 (gwahardd cyflwyno i diriogaeth yr Undeb, a lledaenu o fewn tiriogaeth yr Undeb, Epitrix cucumeris (Harris), Epitrix Papa. (Orlova-Bienkowskaja), Epitrix subcrinita (Lec.) neu Epitrix tuberis (Gentner)) |
| | Erthygl 2(1) (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb gloron tatws sy'n tarddu o drydydd gwledydd lle gwyddys bod un neu fwy o'r organeddau penodedig yn bresennol) |
| | Erthygl 3 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb gloron tatws sy'n tarddu o ardaloedd a ddarnodwyd neu gloron tatws a gyflwynwyd i diriogaeth yr Undeb o drydydd gwledydd lle gwyddys bod un neu fwy o'r organeddau penodedig yn bresennol) |
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/535/EU | Erthygl 10(1) a (2) (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, pren sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu risgl sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau) |
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/697/EU | Erthygl 2 (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o drydydd gwledydd) |
| | Erthygl 3 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o ardaloedd a ddarnodwyd) |
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/789 | Erthygl 9 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig, heblaw unrhyw rai a dyfwyd ar gyfer y cylch cynhyrchu cyfan in vitro neu blanhigion sy'n perthyn i amrywogaethau o blanhigion penodedig a restrir yn Atodiad III) |
| | Erthygl 9a (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig a dyfwyd ar gyfer y cylch cynhyrchu cyfan in vitro ac am o leiaf ran o'u bywyd mewn ardaloedd a ddarnodwyd) |
| | Erthygl 15 (gwahardd cyflwyno planhigion Coffea i'w plannu, ac eithrio hadau, sy'n tarddu o Costa Rica neu Honduras) |
| | Erthygl 16 (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o |

| *Penderfyniad yr UE* | *Y ddarpariaeth ym mhenderfyniad yr UE* |
|---|---|
| | drydydd gwledydd lle nad yw'r organedd penodedig yn bresennol) |
| | Erthygl 17(1) (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o drydydd gwledydd lle gwyddys bod yr organedd penodedig yn bresennol) |
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/893 | Erthygl 2(a) (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o drydydd gwledydd lle gwyddys bod yr organedd penodedig yn bresennol) |
| | Erthygl 3(a) (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb bren penodedig sy'n tarddu o drydydd gwledydd lle gwyddys bod yr organedd penodedig yn bresennol) |
| | Erthygl 4 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o ardaloedd a ddarnodwyd, neu a gyflwynwyd iddynt, neu blanhigion penodedig a gyflwynwyd i diriogaeth yr Undeb o drydydd gwledydd yn unol ag Erthygl 2) |
| | Erthygl 5 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb bren penodedig sy'n tarddu o ardaloedd a ddarnodwyd, pren penodedig sy'n cadw'r cyfan neu ran o'i wyneb crwn sydd wedi ei gyflwyno i ardaloedd a ddarnodwyd neu ddeunydd pecynnu pren penodedig sy'n tarddu o ardaloedd a ddarnodwyd) |
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/715 | Erthygl 5 (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb ffrwythau penodedig sy'n tarddu o Dde Affrica neu Uruguay) |
| | Erthygl 5a (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb ffrwythau penodedig sy'n tarddu o'r Ariannin neu Frasil) |
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2017/198/EU | Erthygl 1 (gwahardd cyflwyno Pseudomonas syringae pv. actinidiae Takikawa, Serizawa, Ichikawa, Tsuyumu & Goto i diriogaeth yr Undeb a gwahardd ei ledaenu o fewn tiriogaeth yr Undeb) |
| | Erthygl 2 (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o drydydd gwledydd) |
| | Erthygl 3 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o'r Undeb neu blanhigion penodedig a gyflwynwyd i diriogaeth yr Undeb o drydydd gwledydd yn unol ag Erthygl 2) |
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/638 | Erthygl 3(a) a (b) (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o drydydd gwledydd heblaw'r Swistir) |

| *Penderfyniad yr UE* | *Y ddarpariaeth ym mhenderfyniad yr UE* |
|---|---|
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/1503 | Erthygl 7(1), (6) a (7) (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o ardaloedd a ddarnodwyd, planhigion penodedig a gyflwynwyd i ardaloedd a ddarnodwyd neu blanhigion penodedig a gyflwynwyd i diriogaeth yr Undeb o drydydd gwledydd lle y gwyddys bod yr organedd penodedig yn bresennol yn unol ag Erthygl 11) |
| | Erthygl 8 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb bren penodedig sy'n tarddu o ardaloedd a ddarnodwyd neu bren penodedig sy'n cadw'r cyfan neu ran o'i arwyneb crwn a gyflwynwyd i ardaloedd a ddarnodwyd) |
| | Erthygl 9 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb ddeunydd pecynnu pren penodedig sy'n tarddu o ardaloedd a ddarnodwyd) |
| | Erthygl 11 (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o drydydd gwledydd lle gwyddys bod yr organedd penodedig yn bresennol) |
| | Erthygl 12 (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb bren penodedig sy'n tarddu o drydydd gwledydd lle gwyddys bod yr organedd penodedig yn bresennol) |
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1615 | Erthygl 2 (gwahardd cyflwyno Firws ffrwythau crychlyd coch tomatos i diriogaeth yr Undeb a'i ledaenu o fewn tiriogaeth yr Undeb) |
| | Erthygl 5 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o diriogaeth yr Undeb) |
| | Erthygl 6 (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o drydydd gwledydd) |
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1739 | Erthygl 2 (gwahardd cyflwyno Firws rhoséd rhosynnau i diriogaeth yr Undeb a'i ledaenu o fewn tiriogaeth yr Undeb) |
| | Erthygl 5 (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o drydydd gwledydd) |
| Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2032 | Erthygl 6 (gofynion mewn perthynas â symud planhigion penodedig o fewn tiriogaeth yr Undeb) |
| | Erthygl 7 (gofynion mewn perthynas â symud pren penodedig a rhisgl ynysedig o barth a heigiwyd i barth clustogi neu o ardal a ddarnodwyd) |

